Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

Chwefror 2020



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **1 Rolau a chyfrifoldebau** | **6** |
| **2 Gwaith partneriaeth strategol** | **9** |
| **3 Hyfforddiant a datblygiad** | **11** |
| **Atodiad: Sail y dystiolaeth** | **12** |
| **Geirfa** | **13** |
| **Cyfeiriadau** | **14** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2018-2019. Mae'r adroddiad yn gwerthuso pa mor dda y mae pwyllgorau rheoli mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Yn benodol, mae'n ystyried pa mor dda y mae pwyllgorau rheoli wedi ymateb i'r 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion' gan Lywodraeth Cymru (2018a) i gefnogi gwelliant.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, pwyllgorau rheoli UCDau, athrawon sydd â gofal, a staff mewn UCDau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i sefydliadau eraill fel ysgolion prif ffrwd a llywodraethwyr, cyrff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi eu seilio ar amrywiaeth o dystiolaeth arolygu. Bu arolygwyr yn cynnal cyfweliadau dros y ffôn gyda chadeiryddion ac aelodau pwyllgorau rheoli hefyd, yn ogystal â gydag athrawon sydd â gofal am yr UCDau, i archwilio eu barn.

## Cefndir

Mae Deddf Addysg 1996 (adran 19) yn datgan y 'dylai pob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol i'r plant hynny o oed ysgol gorfodol sydd, am resymau salwch, gwahardd o'r ysgol neu reswm arall, yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud iddynt' (Prydain Fawr, 1996). Mae Adran 19 y ddeddf yn diffinio'r UCD fel ysgol a sefydlwyd gan awdurdod lleol, ac a gynhelir ganddo, i ddarparu addysg addas ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt efallai, am resymau salwch, gwahardd o'r ysgol neu reswm arall, yn derbyn addysg o'r fath (Prydain Fawr, 1996). Mae'r term 'addysg heblaw yn yr ysgol' (EOTAS) yn cyfeirio at addysg a gyflwynir mewn lleoliadau y tu allan i ysgolion prif ffrwd lle mae awdurdodau lleol yn ariannu lleoliadau unigol. Unedau cyfeirio disgyblion yw'r lleoliad addysg a ddefnyddir amlaf ar gyfer disgyblion sy'n cael eu prif addysg mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi gostwng o 39 yn 2010 i 23 yn 2019. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i uno sawl UCDau i greu UCDau 'portffolio' ar nifer o safleoedd. Nid yw tri awdurdod lleol yn gweithredu UCDau ar hyn o bryd, ond maent yn trefnu ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol fel rhan o ysgol arbennig neu mewn partneriaeth ag awdurdod lleol arall. Yn 2018-2019, cofrestrwyd 820 o ddisgyblion mewn UCDau fel eu prif ddarparwr addysg, a oedd yn cyfrif am 43.5% o'r holl ymrestriadau addysgol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd tua thri chwarter o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn UCDau yn fechgyn. Mae nifer y disgyblion mewn UCDau yn cynyddu yn ôl pob grŵp oedran o

11 oed i 15 oed. Er 2013-2014, defnyddir UCDau yn amlach i addysgu disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol na darpariaethau eraill, fel darparwyr wedi eu comisiynu gan awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Yn 2011, cynhaliodd Llywodraeth Cymru (2011) ‘Adolygiad o Addysg heblaw yn yr Ysgol a Chynllun Gweithredu’. Adeg yr adolygiad, ystyriwyd bod sefydlu pwyllgor rheoli yn arfer dda yn hytrach na gofyniad statudol. Cydnabuwyd bod rhyw fath o bwyllgor rheoli gan fwyafrif yr UCDau yng Nghymru. Daw’r adolygiad i’r casgliad fod effeithiolrwydd UCDau yn gwella trwy gael pwyllgor rheoli i herio a chefnogi cyflwyno addysg. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru wneud pwyllgorau rheoli yn statudol yng Nghymru, a chyhoeddi canllawiau ar sut dylent weithredu.

Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Prifysgol Caeredin i archwilio’r broses ar gyfer gwahardd disgyblion o ysgolion yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli a’r angen am gyfleoedd gwell o ran hyfforddiant a datblygiad i’w haelodau (Llywodraeth Cymru, 2013).

## Pwyllgorau rheoli

Yn 2014, gosodwyd y Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli, ac ati) (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth y rheoliadau i rym o fis Hydref 2014, gyda gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau rheoli ar gyfer yr holl UCDau erbyn mis Chwefror 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014). Y bwriad oedd i bwyllgorau rheoli gael rôl bwysig mewn llywodraethu eu UCD. Cyhoeddwyd canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ac UCDau yn unol â’r rheoliadau (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae’r canllawiau’n rhoi cyfrifoldebau i bwyllgorau rheoli am gynnal eu UCD, ac yn amlinellu’r cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau rheoli, awdurdodau lleol, ac athrawon sydd â gofal.

Mae’r canllawiau yn datgan bod pwyllgorau rheoli yn cyflawni rôl ymgynghorol, yn ogystal â chael cyfrifoldebau statudol ar gyfer swyddogaethau neu dasgau penodol. Dylid eu cynnwys yn weithredol yn y rhan fwyaf o benderfyniadau i sicrhau bod eu UCDau yn effeithiol ac yn darparu addysg addas ar gyfer disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.11).

Mae gan bwyllgorau rheoli gyfrifoldeb statudol ar y cyd â’u hawdurdodau lleol i gyflawni rhai swyddogaethau, er enghraifft y cwricwlwm a gynigir ac o ran penderfynu amseroedd sesiynau ysgol. O ran gwaharddiadau, mae ganddynt rôl debyg i gyrff llywodraethol ysgolion, o ran cadarnhau neu wrthod y gwaharddiadau hyn (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.12).

Mae canllawiau 2014 yn amodi bod rhaid i’r awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgorau rheoli, sef:

- goruchwylio’r ffordd y caiff yr UCD ei rhedeg
- delio â chwynion yn ymwneud â’r cwricwlwm
- sefydlu ac adolygu polisïau disgyblu
- arfarnu staff addysgu (Llywodraeth Cymru 2014, tud.12)

Dylai fod gan bwyllgorau rheoli rôl strategol ac ymgynghorol o ran cyflawni eu swyddogaethau, ac unrhyw swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt gan yr awdurdod lleol. Yn benodol, dylent weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a sefydlu fframwaith strategol ar gyfer yr UCD. Dylai hyn gynnwys:

- amlinellu nodau ac amcanion priodol
- nodi a chynnwys polisïau, targedau a blaenoriaethau
- amlinellu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu nodau ac amcanion, a ph'un a yw polisïau, targedau a blaenoriaethau yn cael eu cyflawni (Llywodraeth Cymru, 201, tt.12-13)

Mae'r athro sydd â gofal am yr UCD yn gyfrifol am drefniadaeth a rheolaeth fewnol yr UCD, ac am roi'r cynllun strategol ar waith. Yn benodol, dylai athrawon â gofal ddatblygu nodau ac amcanion, polisïau a thargedau i'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol eu hystyried (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.13). Mewn rhai UCDau, defnyddir y term 'pennaeth' yn gyfnewidiol ag 'athro â gofal'. Defnyddir y term 'athro â gofal' trwy gydol yr adroddiad hwn, yn unol â rheoliadau.

Mae cyllidebau dirprwyedig gan UCDau, ond nid yw'r gofyniad i ddirprwyo yn ymestyn i'r swyddogaethau canlynol:

- pwerau ymyrraeth yr awdurdod lleol
- rheoli safle ysgol
- cyfarwyddyd gan yr awdurdod ynghylch iechyd a diogelwch
- penodi, gwahardd neu ddiswyddo staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu
- gwario arian yr awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.12)

Yn 2018, cyhoeddwyd 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion' gan Lywodraeth Cymru (2018). Mae'r Llawlyfr yn darparu arweiniad a gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo aelodau pwyllgorau rheoli i wella'r effeithiolrwydd ar gyfer cyflawni eu rolau.

Mae Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018b) yn cynnig y dylid dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau rheoli ymhellach. Mae swyddogaethau ychwanegol y Cod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i bwyllgorau rheoli am ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys paratoi a chynnal cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn ogystal â chyfrifoldeb am sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Mae mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynigion hyn yn gyffredinol ar yr amod bod Pwyllgor Rheoli'r UCD yn derbyn y cymorth, yr arian a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn..

## Prif ganfyddiadau

1 Mae pwyllgor rheoli UCD yn gweithio orau mewn partneriaeth â'i awdurdod lleol a phan fyddant yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr UCD. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd fel arfer yn arwain at berthnasoedd gwaith cryf ac at ddisgwyliadau clir ar gyfer deilliannau dysgwyr.

2 Mae tua hanner y pwyllgorau rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae pwyllgorau rheoli yn effeithiol pan fydd rolau a chyfrifoldebau aelodau'r pwyllgor am wella eu UCD yn glir. Yn yr achosion gorau, gwna aelodau ddefnydd da o'r 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion' (Llywodraeth Cymru, 2018b). Nid yw lleiafrif o bwyllgorau rheoli yn ymwybodol o'r Llawlyfr neu nid ydynt yn ei ddefnyddio yn ddigon da. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad defnyddiol hwn yn cyfrannu at arfer anghyson ar draws pwyllgorau rheoli UCDau.

3 Pan fydd pwyllgorau rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'u UCD, gall aelodau herio a chefnogi arweinyddiaeth yr UCD yn dda. Mae aelodau'r pwyllgorau rheoli llwyddiannus yn adlewyrchu anghenion eu UCD, yn ogystal â bodloni gofynion rheoleiddio. Mae ehangder a phrofiad aelodau yn cryfhau dealltwriaeth y pwyllgor o anghenion eu disgyblion. Mae lleiafrif o bwyllgorau rheoli yn mynd ati i annog disgyblion i gymryd rhan yn eu gwaith, ac mae hyn yn helpu staff i gefnogi disgyblion a'u lles yn well.

4 Mae llawer o UCDau yn ei chael yn anodd recriwtio amrywiaeth eang o aelodau i'w pwyllgorau rheoli. Mae hyn yn effeithio ar ehangder y wybodaeth a'r profiad sydd ar gael i'r pwyllgor ac yn ei gwneud yn anodd dirprwyo cyfrifoldebau penodol. Mae sicrhau cynrychiolaeth rhieni yn benodol yn un o'r problemau mwy heriol wrth recriwtio.

5 Mae rheoliadau yn amlinellu cyfrifoldeb ar y cyd i'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y disgyblion. Mae UCDau a phwyllgorau rheoli llwyddiannus yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ar yr agwedd hon. Pan fydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n strategol gyda phwyllgor rheoli'r UCD, mae hyn yn cynorthwyo'r UCD i fod yn fwy ymatebol i anghenion ei dysgwyr yn dda. Mae'r arfer fwyaf effeithiol wedi'i seilio ar berthynas o gydweithio.

6 Yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant a datblygiad aelodau'r pwyllgor rheoli. Yn y pwyllgorau rheoli mwyaf effeithiol, mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor i ddarparu cyfleoedd hyfforddi perthnasol, cyson a gwerth chweil, ond mae'r arfer hon yn digwydd mewn ychydig o UCDau yn unig. Mae angen hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn rhoi'r newidiadau a gynigir yng Nghod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018b) ar waith yn llwyddiannus.

## Argymhellion

**Dylai pwyllgorau rheoli:**

A1 Ddefnyddio'r Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion i wella eu gwaith

A2 Gweithio'n agos mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol, eu consortiwm rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu UCD

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A3 Ddarparu rhaglen flynyddol o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau o bwyllgorau rheoli UCDau

A4 Sicrhau bod swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn deall rôl a swyddogaeth eu UCDau yn llawn er mwyn gwella eu cydweithio â phwyllgorau rheoli

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl bwyllgorau rheoli am y Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

# 1 Rolau a chyfrifoldebau

7 Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gan bwyllgorau rheoli aelodaeth addas a’u bod yn cael eu cynorthwyo’n briodol i helpu aelodau i gyflawni eu rolau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (2014) yn amlinellu aelodaeth ofynnol pwyllgorau rheoli ac yn argymell cyfyngiad o 12 aelod. Eithriad i hyn fyddai UCDau sydd â mwy nag un lleoliad ar draws nifer o safleoedd. O gyfanswm nifer aelodau’r pwyllgor rheoli:

a) rhaid i o leiaf un ond dim mwy nag un o bob pum aelod fod yn rhiant aelodau
b) rhaid i o leiaf un ond dim mwy na thraean o’r aelodau fod yn aelodau staff, ac mae hyn yn cynnwys yr athro sydd â gofal
c) rhaid i o leiaf un ond dim mwy na thraean o’r aelodau fod yn aelodau a benodwyd gan yr awdurdod
ch) rhaid i o leiaf un ond dim mwy na dau o’r aelodau fod yn aelodau noddi. Mae’r unigolyn hwn wedi rhoi, neu yn rhoi, cefnogaeth ariannol sylweddol i’r UCD; mae wedi darparu, neu yn darparu, gwasanaethau helaeth i’r UCD neu’n cynrychioli budd sefydliad neu fusnes sydd wedi rhoi nawdd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn argymell y dylai pwyllgorau rheoli annog cyfranogiad disgyblion yn y pwyllgor fel bod safbwyntiau’r dysgwyr yn cael eu cynrychioli yn y broses gwneud penderfyniadau (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.6).

8 Rhaid i nifer yr aelodau cymunedol fod yn fwy na’r holl aelodau eraill a restrir yn is-baragraffau (a) i (ch). Mae’r aelodau hyn yn cynrychioli budd y gymuned, er enghraifft ysgolion lleol, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS), elusennau addysgol, colegau addysg bellach lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant amgen (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.8). Gall yr heddlu lleol a sefydliadau ieuenctid y sector fod yn aelodau cymunedol hefyd.

9 Mae pwyllgorau rheoli effeithiol yn glir ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau’r aelodau a’r awdurdod lleol. Yn yr UCDau hyn, mae’r pwyllgor rheoli yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at arweinyddiaeth strategol, er enghraifft trwy brosesau hunanwerthuso sy’n nodi meysydd i’w datblygu ymhellach. Mae’r pwyllgorau hyn yn rhoi her a chymorth effeithiol ar gyfer cyflwyno a monitro cynllunio gwelliant.

Yn **UCD Abertawe**, mae’r pwyllgor rheoli yn cyfrannu at y broses hunanwerthuso trwy ymweld â’r UCD yn rheolaidd. Mae’r ymweliadau wedi cryfhau dealltwriaeth yr aelodau o sail y dystiolaeth ar gyfer y broses hunanwerthuso. Er enghraifft, mae deilliannau disgyblion, cyfraddau presenoldeb ar draws yr UCD a gwybodaeth am ailiintegreiddio disgyblion yn rhoi ffigurau cymharol i aelodau, ac yn caniatáu trafodaeth wybodus am y cynnydd y mae’r UCD yn ei wneud ar draws agweddau o’r fath. Mae’r ddealltwriaeth fanwl hon yn galluogi aelodau i roi cymorth a her well i uwch arweinwyr i helpu gwelliant.

10 Pan fydd pwyllgorau rheoli yn deall eu swyddogaethau yn llawn, dangosant ddealltwriaeth gref o'u UCD. Mae hyn yn galluogi aelodau i herio a chefnogi arweinwyr yr UCD. Ceir dealltwriaeth drylwyr o'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd gan yr awdurdod lleol. Caiff aelodau eu cynnwys yn weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, i sicrhau bod eu UCD yn effeithiol ac yn darparu addysg addas ar gyfer ei disgyblion.

11 Rhwng 2013-2014 a 2018-2019, arolygodd Estyn 26 UCD, a chafodd chwech ohonynt argymhellion i wella effeithiolrwydd y pwyllgor rheoli. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod pwyllgorau rheoli ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Amlygodd ychydig o argymhellion hefyd fod angen i bwyllgorau rheoli gymryd rôl fwy gweithredol mewn monitro ac mewn herio perfformiad yr UCD. Mae adroddiadau arolygu er 2017 yn nodi gwelliannau mewn trefniadau pwyllgorau rheoli a'u heffaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth UCD.

Yn **UCD Y Daith** ym Mro Morgannwg, caiff y pwyllgor rheoli ei gryfhau yn sgil penodi aelodau sydd ag arbenigedd. Er enghraifft, mae aelodau yn cynnwys pennaeth ysgol arbennig leol, rhiant, a nyrs ysgol. Mae'r UCD yn elwa ar y cyfraniadau y mae aelodau fel y rhain yn eu cynnig i arweinwyr. Caiff aelodau fewnwelediad clir ar gryfderau'r UCD a'i meysydd i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon i weithio gyda'r athro â gofal ac uwch arweinwyr eraill wrth osod y blaenoriaethau strategol ar gyfer yr UCD.

12 Mae gan bwyllgorau rheoli llwyddiannus aelodau sy'n adlewyrchu anghenion yr UCD ac yn bodloni gofynion rheoleiddio. Mae ehangder a phrofiad aelodau'r pwyllgor yn cryfhau dealltwriaeth aelodau o anghenion y disgyblion sy'n mynychu eu UCD. Mae'r pwyllgorau rheoli hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith rhieni, staff, awdurdod lleol, ac aelodau cymunedol. Mae aelodau cymunedol yn adlewyrchu proffil yr UCD. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynrychiolaeth o blith gwasanaethau cymdeithasol, CAMHS, a sefydliadau ieuenctid. Mewn ychydig iawn o achosion, mae gan UCDau gynrychiolaeth noddi. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hyn yn arfer dda yn hytrach na gofyniad.

Yng **Nghanolfan Gyflawni'r Bont** yng Nghasnewydd, mae is-bwyllgorau yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol i aelodau rannu eu harbenigedd â'r UCD ac yn cynnwys asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae aelod o'r pwyllgor rheoli yn defnyddio ei harbenigedd i hyfforddi staff i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adrodd am welliant yn hyder athrawon i gyflwyno'r Gymraeg mewn gwersi, a chynnydd mewn Cymraeg achlysurol a ddefnyddir gan bob aelod o staff. Mae arweinwyr yn adrodd yn awr fod disgyblion ambell waith yn dechrau dangos hyder gwell wrth ddefnyddio ymadroddion Cymraeg yn ystod y diwrnod ysgol.

13 Caiff llawer o UCDau anawsterau yn penodi aelodau i'r pwyllgor rheoli, ac mae hyn yn effeithio ar ddirprwyo cyfrifoldebau. Mewn rhai achosion, nid yw aelodaeth y pwyllgor rheoli yn diwallu anghenion yr UCD. Mae llawer o bwyllgorau rheoli yn ymwybodol o'r heriau hyn ac yn ymdrechu i benodi aelodau addas i gefnogi a gwella eu gwaith. Mae penodi rhiant aelodau yn parhau i fod yn un o'r agweddau mwyaf heriol ar recriwtio.

Yng **Nghanolfan Addysgol Tai** yn Rhondda Cynon Taf, mae'r UCD wedi penodi aelodau pwyllgor sy'n adlewyrchu anghenion yr UCD benodol hon yn dda. Mae hyn yn cynnwys aelodau o ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, gwasanaethau cymdeithasol, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu a chynrychiolydd rhieni. Mae'r pwyllgor cyfan yn dod â llawer o arbenigedd a phrofiad i gryfhau gweithrediad effeithiol pwyllgor rheoli'r UCD.

14 Mae nifer gynyddol o bwyllgorau rheoli yn mynd ati i annog cyfranogiad disgyblion fel rhan o'u rôl. Er enghraifft, mewn ychydig o UCDau, mae disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgor eco yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno eu ceisiadau i wella'r amgylchedd lleol.

15 Mae tua hanner pwyllgorau rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda a pham mae angen iddynt gyflawni'r dyletswyddau hyn. Er enghraifft, defnyddiant y Llawlyfr yn effeithiol i gefnogi a herio prosesau hunanwerthuso i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn at arweinyddiaeth strategol eu UCDau.

Yng **Nghanolfan Gyflawni'r Bont** yng Nghasnewydd, mae'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r Llawlyfr yn llwyddiannus i ffurfio rolau a swyddogaethau'r pwyllgor rheoli ymhellach. Mae'r cadeirydd yn adrodd bod y Llawlyfr yn 'hawdd i'w ddefnyddio' ac mae'n rhoi arweiniad gwerthfawr i sicrhau bod yr aelodau'n deall eu rolau a'u swyddogaethau fel rhan o bwyllgor rheoli'r UCD yn llawn.

16 Mae pwyllgor rheoli ar waith gan bob UCD. Pan fydd pwyllgorau rheoli yn llwyddiannus, mae aelodau yn gwneud defnydd da o'r arweiniad a'r llawlyfr i arwain a llywio eu gwelliant. Mae gan y pwyllgorau rheoli hyn aelodau sy'n adlewyrchu anghenion yr UCD. Cânt eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau ynghylch llunio polisïau ac mae eu cyfarfodydd yn rhoi cydbwysedd rhwng cymorth a her i arweinwyr yr UCD. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y pwyllgorau rheoli yn defnyddio'r arweiniad na'r llawlyfr yn ddigon da i lywio'r ffordd maent yn gweithredu.

17 Ers cyflwyno'r Llawlyfr yn 2018, mae'r pwyllgorau rheoli mwyaf effeithiol yn defnyddio'r arweiniad hwn yn dda i wella a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth eu haelodau o'u cyfrifoldebau. Mae'r Llawlyfr yn cryfhau rôl y pwyllgor rheoli ar gyfer eu UCD. Er enghraifft, mae ychydig o bwyllgorau rheoli yn defnyddio'r Llawlyfr fel rhan o'u proses ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd ac mae pwyllgorau rheoli eraill yn ei ddefnyddio i gynnig trylwyredd wrth adolygu eu polisïau a'u dogfennau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o bwyllgorau rheoli UCDau yn ymwybodol o'r Llawlyfr, neu nid

ydynt yn ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant yn ddigon da.  Mae'r defnydd annigonol o'r arweiniad ymarferol hwn yn rhwystro datblygiad arfer gyson ac effeithiol ar draws pob pwyllgor rheoli UCD yng Nghymru.

## 2 Gwaith partneriaeth strategol

18 Mae’r gwaith partneriaeth strategol mwyaf effeithiol yn digwydd pan fydd yr awdurdod lleol a’r pwyllgor rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ddiben yr UCD, a’i lle mewn ymateb graddedig i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Yn yr achos hwn, yn aml mae gan bwyllgorau rheoli berthnasoedd gwaith cadarn ar y cyd â swyddogion awdurdodau lleol, a gallai gynnwys swyddog awdurdod lleol fel aelod o’r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau’r awdurdod lleol ynghylch deilliannau disgyblion yn yr UCD. O ganlyniad, mae aelodau o bwyllgorau rheoli yn gweithio’n strategol gydag arweinwyr yr awdurdod lleol ac uwch arweinwyr yr UCD i sicrhau bod diben bwriadedig yr UCD yn realistig a chyflawnadwy.

Yn **UCD Bryn Y Deryn** yng Nghaerdydd, mae’r athro â gofal wedi meithrin cysylltiadau cryf â’r awdurdod lleol a’r consortiwm fel ei gilydd. Mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd â’r athro â gofal a’r ymgynghorydd her i adolygu cynnydd yr UCD a chynllunio ar gyfer gwella ymhellach. Mae’r berthynas waith gadarnhaol hon yn cefnogi dealltwriaeth glir o ddiben, heriau a llwyddiannau’r UCD ar gyfer yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a’r athro â gofal.

19 Mewn lleiafrif o achosion, mae awdurdodau lleol yn cynnwys uwch arweinwyr UCDau fel rhan o’u paneli lleoli. Mae’r arfer hon yn cryfhau penderfyniadau a wneir ynghylch prosesau lleoli ac yn hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a’r UCD.

Yn **UCD Abertawe**, mae’r dirprwy athro â gofal yn cadeirio panel lleoli’r awdurdod lleol. Mae’r UCD wedi datblygu meini prawf ar gyfer cyfeirio, ac mae disgwyliadau’r UCD ar gyfer ysgolion ar draws Abertawe yn glir. Bu’r berthynas well hon yn fuddiol ar gyfer disgyblion sy’n mynychu’r UCD neu sydd wedyn yn fwy tebygol o ddychwelyd i leoliadau prif ffrwd.

20 Pan fydd yr awdurdod lleol yn gweithio’n strategol gyda phwyllgor rheoli’r UCD, mae’n sicrhau bod gan y pwyllgor aelodaeth addas, a bod cyn lleied o swyddi gwag ag y bo modd. Mewn ychydig o achosion, mae swyddogion awdurdodau lleol yn dyrchafu cydweithwyr o wasanaethau cymdeithasol ac iechyd i fod yn aelodau o’r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn ychwanegu ehangder gwerthfawr o wybodaeth a phrofiad at aelodaeth y pwyllgor rheoli.

21 Mae’n ofynnol i’r awdurdod lleol gael o leiaf un cynrychiolydd ar y pwyllgor rheoli. Mae hon yn rôl hollbwysig o ran datblygu arferion gweithio strategol rhwng yr awdurdod lleol a’r pwyllgor rheoli. Mae’r arfer fwyaf effeithiol yn digwydd pan fydd aelodau’n teimlo’n ddigon hyderus i gefnogi a herio penderfyniadau’r awdurdod lleol gyda dealltwriaeth gadarn o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn eu UCD.

22 Mae’r rheoliadau yn nodi cyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a’r pwyllgor rheoli i ddatblygu cwricwlwm perthnasol ar gyfer disgyblion. Mae UCDau a phwyllgorau rheoli llwyddiannus yn gweithio’n dda gyda’r awdurdod lleol ar yr agwedd hon. Pan fydd yr awdurdod lleol yn rhannu gweledigaeth glir gydag arweinwyr yr UCD ac aelodau’r pwyllgor rheoli, mae’r cwricwlwm wedi’i sefydlu’n dda; mae darpariaeth yr UCD yn cefnogi anghenion, galluoedd a budd y disgyblion ac yn darparu llwybrau dysgu perthnasol fel rhan o gontinwwm darpariaeth i hyrwyddo deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion.

# 3 Hyfforddiant a datblygiad

23 Cyfrifoldeb awdurdod lleol yw hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau pwyllgor rheoli. Yn y pwyllgorau rheoli mwyaf effeithiol, mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag aelodau pwyllgor i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant gwerth chweil. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o bwyllgorau rheoli ac awdurdodau lleol ymagwedd strategol at nodi a chyflwyno hyfforddiant sydd wedi'i seilio ar ddadansoddiad o angen. Pan fydd hyfforddiant yn digwydd, cyfyngedig yw'r gwerthusiad o'i effeithiolrwydd. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru (2017a) 'Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi a Datblygu Pwyllgorau Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion' yn nodi mai dull gwerthfawr ar gyfer datblygu deunyddiau hyfforddiant effeithiol ar gyfer pwyllgorau rheoli yw archwilio'r hyn sydd ar gael i gyrff llywodraethol ysgolion ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad yn awgrymu ymarferoldeb teilwra'r deunyddiau hyn i ddiwallu anghenion pwyllgorau rheoli, ond prin yw'r dystiolaeth fod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi defnyddio'r dull hwn.

24 Mae'r Llawlyfr yn pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o ansawdd da ar gyfer aelodau pwyllgor. Mae'n dweud y gallai hyfforddiant a chymorth fod ar gael i bob aelod, sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r dull o ddiwallu anghenion hyfforddiant pwyllgorau rheoli ar draws awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yng Nghymru yn anghyson.

25 Mewn tua hanner yr UCDau, gwnânt ddefnydd effeithiol o fedrau ac arbenigedd aelodau eu pwyllgor rheoli i gefnogi cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Yn ogystal â chael hyfforddiant gan aelod o'r pwyllgor rheoli sydd ag arbenigedd yn y Gymraeg, mae **Canolfan Gyflawni'r Bont** yng Nghasnewydd yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth a chyngor ar hyfforddiant diogelu gan aelod arall o'r pwyllgor. Mae'r cyngor a'r hyfforddiant parhaus hwn mewn diogelu ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor yn sicrhau'r awdurdod lleol bod pob aelod o'r pwyllgor yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Mae hefyd yn galluogi aelodau i herio arweinwyr yr UCD yn effeithiol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn yr UCD i ddiogelu disgyblion.

26 Mae Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (2017b) Llywodraeth Cymru yn darparu saith cynnig allweddol, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar wella'r cymorth sydd ar gael ar gyfer pwyllgorau rheoli. Mae nod tymor canolig yn galw am i gonsortia rhanbarthol roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr UCDau. Argymhelliad pellach yw y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer datblygu a chyflwyno modiwlau hyfforddiant penodol UCDau mewn cysylltiad â rhanddeiliaid y sector cyhoeddus, ond nid yw hyn wedi cael ei roi ar waith eto.

## Atodiad: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn defnyddio trafodaethau gydag athrawon â gofal a chadeiryddion pwyllgorau rheoli yn yr UCDau canlynol:

- Canolfan Gyflawni’r Bont, Casnewydd
- Ysgol ac Uned Cynorthwyo Myfyrwyr Bryn Y Deryn, Caerdydd
- Canolfan Addysg Tŷ Gwyn, Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaethau Cyfeirio Disgyblion Wrecsam, Wrecsam
- UCD Sir Ddinbych, Sir Ddinbych

Maent yn defnyddio adolygiad o arolygiadau Estyn a sylwadau pwyllgorau rheoli ar gyfer yr UCDau canlynol hefyd:

- Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau, Conwy (2013)
- Canolfan Addysg Gyffin, Conwy (2013)
- Canolfan Addysg Penmaenrhos, Conwy (2013)
- Canolfan Addysg Tŷ Gwyn, Rhondda Cynon Taf (2013)
- Canolfan Ddysgu Glanynant, Caerffili (2014)
- UCD Portffolio Sir y Fflint, Sir y Fflint (2015)
- Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin (2015)
- Gwasanaethau Cyfeirio Disgyblion Wrecsam, Wrecsam (2016)
- Uned Cyfeirio Disgyblion Powys, Powys (2016)
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Ceredigion, Powys (2016)
- UCD Gwersi Amgen Tŷ Glyn, Torfaen (2016)
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro, Sir Benfro (2017)
- Canolfan Bro Tywi, Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad, Sir Gaerfyrddin (2017)
- UCD Portffolio Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr (2017)
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy, Sir Fynwy (2018)
- Canolfan Gyflawni’r Bont, Casnewydd (2018)
- UCD Sir Ddinbych, Sir Ddinbych (2019)
- Uned Cyfeirio Disgyblion Dinas a Sir Abertawe, Abertawe (2019)
- Y Daith, Bro Morgannwg (2019)
- Canolfan Addysgol Tai, Rhondda Cynon Taf (2019)

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **DDdY** | Darpariaeth ddysgu ychwanegol |
| **EOTAS** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **CDU** | Cynllun datblygu unigol |
| **ALl** | Awdurdod lleol |
| **OECD** | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| **UCD** | Uned cyfeirio disgyblion |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli, ac ati) (Cymru) 2014*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru (2011) *Adolygiad o Addysg heblaw yn yr Ysgol a Chynllun Gweithredu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/15815/1/110815reviewandplanen.pdf [Darllenwyd 12 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2013) *Gwerthusiad o ddarpariaeth addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliadau ysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/18415/1/130624-evaluation-education-provision-children-young-people-educated-outside-school-setting-en.pdf [Darllenwyd 22 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2014) *Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli, ac ati) (Cymru) 2014: Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac unedau cyfeirio disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-rheoliadau-addysg-unedau-cyfeirio-disgyblion-pwyllgorau-rheoli-ac-ati-cymru-2014.pdf [Darllenwyd 8 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Dadansoddiad o anghenion hyfforddi a datblygu pwyllgorau rheoli uned cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dadansoddiad-o-anghenion-hyfforddi-a-datblygu-pwyllgorau-rheoli-uned-cyfeirio-disgyblion.pdf [Darllenwyd 22 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth heblaw yn yr ysgol (EOTAS)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/fframwaith-gweithredu-ar-gyfer-darpariaeth-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-2019.pdf [Darllenwyd 7 Tachwedd 2018]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2018]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/cod-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru_0.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2019]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/crynodeb-or-ymatebion-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft_0.pdf [Darllenwyd 9 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Datganiad Ystadegol Cyntaf 2019 – Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2018/19*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf [Darllenwyd 9 Medi 2019]

Prydain Fawr (1996) *Deddf Addysg 1996*. Adran 19. Llundain: Y Llyfrfa